

Croesi



Muriau

Crossing Barriers • Week of Prayer for Christian Unity

www.ctbi.org.uk/weekofprayer



Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2017



Mur Berlin a'r tŵr gwyllo / Berlin Wall and watch tower

Y mae nifer o resymau i ddathlu'r Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol eleni. Gan fod y deunyddiau yn tynnu ein sylw at yr Almaen, cofiwn yn arbennig bumcanmlwyddiant y Diwygiad yn yr Almaen a'r alwad i gymodi.

Mae'r cyfnod hwn yn un o newid mawr ac ansicrwydd ledled y byd wrth inni wynebu anawsterau megis newid hinsawdd, ymfudiad pobl ar draws y blaned a thwf gwrthdaro mewn amryw o lefydd. Yn y cyddestun Ewropiaidd, gwelwn fod nifer o'r pethau hyn yn digwydd ar ein strydoedd, rhywbeth sy'n sicr yn rheswm dros weddiâu am undod.

Mae angen i ni weddio am weledigaeth ehangach ar gyfer Eglwys unedig. Gyda chynifer o faterion byd-eang a lleol yn ein wynebu bob dydd, mae angen i dystiolaeth yr Eglwysi fod yn gryf ac yn glir wrth alw am undod. Mae angen i ni fod yn gadarn a sefyll gyda'n gilydd i dystiolaethu dros Eglwys sydd â Christ yn ei chanol,

wrth sefyll och yn ochr â'r rhai sydd ar yr ymylon heb lais a heb rym. Mae angen i'r gweddiâu am undod fod yn weddiâu beunyddiol, er mwyn tyfu bywyd Crist ym mhob un ohonom.

Rwy'n cyflwyno'r adnoddau rhagorol hyn i chi, yn adnoddau ar gyfer addoliad ar y Sul a'r gweddiâu i'w defnyddio yn ystod yr wythnos sydd wedi eu hysgrifennu gan grŵp sy'n cynnwys aelodau o bob ardal ym Mhrydain a'r Iwerddon. Mae'r adnoddau yn gyfoethog am fod yr awduron wedi eu gweddio i fodolaeth ac am eu bod wedi eu defnyddio mewn addoliad cyn eu cynnig i chi.

Rwy'n gobeithio y cewch chi brofiad o weddi gyfoethog ac ystyrlon yn ystod yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol hon.

**Bob Fyffe, Ysgrifennydd Cyffredinol,
Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon**

Cyflwyniad i'r thema eleni

Cynhyrchwyd y deunydd i'w ddefnyddio ledled y byd gan eglwysi yn yr Almaen eleni.

Oherwydd y mae cariad Crist yn ein gorfodi ni, a ninnau wedi ein hargyhoeddi o hyn: i un farw dros bawb, ac felly i bawb farw. A bu efarw dros bawb er mwyn i'r byw beidio â byw iddynt eu hunain mwyach, ond i'r un a fu farw drostynt, ac a gyfodwyd. O hyn allan, felly, nid ydym yn ystyried neb o safbwynt dynol. Hyd yn oed os buom yn ystyried Crist o safbwynt dynol, nid ydym yn ei ystyried felly mwyach. Felly, os yw rhywun yng Nghrist,

*y mae'n greadigaeth newydd; aeth yr hen heibio, y mae'r newydd yma. Ond gwaith Duw yw'r cyfan—Duw, yr hwn sydd wedi ein cymodi ni ag efe ei hun trwy Grist a rhoi i ni weinidogaeth y cymod. Hynny yw, yr oedd Duw yng Nghrist yn cymodi'r byd ag efe ei hun, heb ddal neb yn gyfrifol am ei droseddau, ac y mae wedi ymddiried i ni neges y cymod. Felly cenhadon dros Grist ydym ni, fel pe bai Duw yn apelio atoch trwom ni. Deisyf yr ydym dros Grist, cymoder chwi â Duw.
(2 Corinthiaid 5: 14-20 BCN)*

Welcome



There are many reasons to celebrate this year's Week of Prayer for Christian Unity. As the resources take our focus to Germany we remember especially the 500th Anniversary of the German Reformation and the call to reconciliation.

This is a time of great change and uncertainty around the world as we confront difficulties such as climate change, migration of people across the planet and conflict spreading in many places. In the European context we see many of these issues finding expressions on our streets and these are indeed a cause for prayers for unity.

We need to pray for a greater vision of a united Church. With so many global and local issues confronting all of us every day, the churches witness needs to be strong and clear in its call for unity. We need to be resolute in

standing together to witness to a Christ centred Church, in standing with those on the margins who have no voice and no power. Prayers for unity need to become daily prayers, so that we deepen Christ's life in each one of us.

I commend these superb resources, both the Sunday worship and the weekday prayers which have been written by a group from around Britain and Ireland. The resources are rich because they have been prayed into being and have been used in worship prior to being offered to you.

I hope you have a rich and meaningful experience of prayer during this Week of Prayer for Christian Unity.

**Bob Fyffe, General Secretary,
*Churches Together in Britain and Ireland***

Introduction to this year's theme

The material for worldwide use this year was produced by the churches in Germany.

For Christ's love compels us, because we are convinced that one died for all, and therefore all died. And he died for all, that those who live should no longer live for themselves but for him who died for them and was raised again. So from now on we regard no one from a worldly point of view. Though we once regarded Christ in this way, we do so no longer. Therefore, if anyone is in Christ, the new creation

has come: The old has gone, the new is here! All this is from God, who reconciled us to himself through Christ and gave us the ministry of reconciliation: that God was reconciling the world to himself in Christ, not counting people's sins against them. And he has committed to us the message of reconciliation. We are therefore Christ's ambassadors, as though God were making his appeal through us. We implore you on Christ's behalf: Be reconciled to God.
(2 Corinthians 5: 14-20 NIV)

Gwaith celf ar Fur Berlin / Artwork on the Berlin Wall



Cefndir

Mae hanner can miliwn o Gristnogion yn yr Almaen ac yn draddodiadol mae'r rhan fwyaf wedi bod yn aelodau naill ai o'r Eglwys Gatholig Rufeinig neu o un o'r Eglwysi Gwladol Protestannaidd. Mae datblygiadau diweddar, yn arbennig derbyniad ffoaduriaid a cheiswyr lloches, wedi dechrau newid y cydbwysedd hwn ac mae traddodiadau Cristnogol eraill wedi dechrau codi eu pennau. Er bod yr hyn sy'n uno'r eglwysi yn gryfach na'r hyn sy'n eu rhannu, mae'r eglwysi'n parhau i ymgolli ynddynt eu hunain ac yn codi muriau newydd oherwydd y gwahaniaethau sy'n dal i fod rhyngddynt. Wrth i'r eglwysi yn yr Almaen ddirnad sut i ddathlu pum can mlynedd ers i Luther gyhoeddi ei Naw Deg a Phum Pwnc, fe geisiwyd chwilio am ffordd a fyddai'n eu huno. Ar ôl trafodaethau maith a oedd yn galed ar adegau, cytunodd yr eglwysi mai'r ffordd i ddathlu'r diwygiad hwn oedd trwy gynnal Christusfest - dathliad o'r Iesu. Canfu Eglwysi'r Almaen eu hysbrydoliaeth yn Evangelii Gaudium, Siars Apostolaidd y Pab Francis sy'n annog gweithredoedd o edifeirwch a chymod am fod 'Cariad Crist yn ein gorfodi' (II Corinthiaid 5.14).

Mae testun II Corinthiaid yn cyhoeddi bod Duw wedi cymodi'r byd ag ef ei hun trwy Grist. Mae cariad Crist yn ein gorfodi i fod yn llysgenhadon dros y cymod hwn. Geilw hyn am gyfnod o edifeirwch cyn inni nesáu at ffynnon maddeuant. Mae'r math hwn o edifeirwch yn cydnabod rhwygiadau a rhaniadau yn ogystal â'r rhesymau drostynt ac mae'n cydnabod muriau ein pechod dynol. Gweithredir ar yr edifeirwch hwn trwy ddymchwel y muriau hyn. Mae'r rhai sydd wedi eu cymodi yng Nghrist yn cael eu galw, yn eu tro, i

gyhoeddi'r cymod hwn i'r holl fyd ar air ac ar weithred. Y mae ar y byd angen am lysgenhadon cymod a fydd yn dymchwel muriau, yn adeiladu pontydd ac yn agor drysau i ffyrdd bywyd newydd.

Y mae bod yn llysgenhadon o'r fath yn gorfodi'r eglwys i gyflawni gweithredoedd pendant yn ogystal â gweddio. Mae argyfwng ffoaduriaid yn ein byd ar hyn o bryd. Os ydym am gynnig rhywfaint o obaith a chysur i'r rhai sy'n ffoi rhag amgylchiadau enbyd, yna mae gweithio er mwyn eu helpu yr un mor angenrheidiol â gweddio drostynt gyda'n gilydd. Mae Duw yn rhoi gobaith hyd yn oed yn y sefyllfaoedd mwyaf diobaith. Gyda chwymp Mur Berlin, gwelodd yr Almaen fod modd dymchwel mur a edrychai'n annymchweladwy. Mae cwmp y mur yn symbol o obaith sy'n dangos nad oes yr un peth yn amhosibl yng nghariad Duw.

Mae Wythnos Weddi 2017 yn rhoi llais i'r awydd am ddatliad o gariad Crist fel rhywbeth sy'n ein cymell i gymodi â'n gilydd. Mae'n ein galluogi i ddathlu cariad Duw trwy ras fel y'i ceir yn thema Luther, sef 'cyfiawnhad y ddynoliaeth trwy ras yn unig'. Bydd y llyfryn hwn yn helpu'r eglwysi i gydnabod poen y rhaniadau dyfnion o fewn eglwys Crist. Trwy nodi ein heuogrwydd, ceisia Eglwysi'r Almaen ein hannog i estyn allan a chofleidiu'r cyfleoedd am gymod. Gobeithiwn y bydd ffynhonnau cymod grasol Duw yn gorlifo er mwyn i ni ganfod tangnefedd ac er mwyn adeiladu pontydd. Ein gweddi yw y bydd cariad Crist yn gorfodi pobl ac eglwysi i fyw bywydau cymodlon a fydd yn dymchwel y muriau uchaf un.



Background

There are fifty million Christians in Germany who, traditionally, have mostly belonged to the Roman Catholic Church or one of the Protestant State Churches. Recent developments, particularly the reception of refugees and asylum seekers, have begun to change this balance and other Christian traditions are finding expression. Whilst that which unites the churches is stronger than that which divides, there are still areas of difference in which the churches remain self-absorbed or construct new walls. As the churches in Germany discerned how to commemorate the 500th anniversary of Luther making public his 95 theses, a way was sought whereby they could stand together. After extensive and sometimes difficult discussions, the churches agreed that the way to commemorate this reformation event should be with a Christofest - a celebration of Christ. The churches of Germany found inspiration in *Evangelii Gaudium*, the Apostolic Exhortation of Pope Francis, which encourages acts of repentance and reconciliation, because 'the Love of Christ compels us' (II Corinthians 5.14).

The text from II Corinthians announces that God has, in Christ, reconciled the world to himself. The love of Christ compels us to be ambassadors of this reconciliation. This calls for a moment of repentance before we draw from the well of forgiveness. Such repentance acknowledges schism and division, names the reasons and acknowledges the walls of human sinfulness. Reconciliation is enacted by dismantling the walls. Those who have been reconciled in Christ are

called, in turn, to proclaim this reconciliation, in word and deed, to all the world. The world needs ambassadors of reconciliation who will break down walls, build bridges and open doors to new ways of life.

Being such ambassadors requires the churches to offer concrete acts alongside our prayers. The world stands in the midst of a refugee crisis. Tangible acts of help are just as necessary as praying together, in order to offer those who are fleeing their terrible situations some hope and consolation. God gives hope even in the most hopeless of situations. With the fall of the Berlin Wall, Germany experienced how a seemingly insurmountable wall could be brought down. The fall of this wall is a symbol of hope that, with the love of God, nothing is impossible.

This 2017 Week of Prayer for Christian Unity gives voice to the desire for a celebration of the love of Christ as a means and motive for reconciliation. It enables the celebration of the love of God's grace as reflected in Luther's theme of 'justification of humanity through grace alone'. This booklet will help the churches to address the pain of deep division within the Church of Christ. By openly naming our guilt, the churches of Germany seek to encourage us to reach out towards opportunities for reconciliation. We hope that the wellspring of God's gracious reconciliation will overflow so that we may find peace and so that bridges may be built. It is our prayer that people and churches will be compelled, by the love of Christ, to live reconciled lives and break through the highest walls.



Celf Mur Berlin

Man cychwyn

Pan ddaeth Paul i gredu yng Nghrist fe ddaeth i ddealltwriaeth radical newydd: bu farw un person dros bawb. Dywedodd Iesu, 'Nid oes gan neb gariad mwy na hyn, sef bod rhywun yn rhoi ei einioes dros ei gyfeillion.' Carcharwyd y Ffransisiad Maximilian Kolbe yng ngwersyll crynhoi Auschwitz ac yn 1941 fe fodlonodd i aberthu ei fywyd ei hun er mwyn i garcharor arall gael byw. Trwy ddsygeidiaeth Paul, gwelwn fod marwolaeth Crist yn fodd i'n cymodi ni â Duw. Mae eglwysi Cristnogol yn rhannu'r un comisiwn o gyhoeddi neges yr Efengyl o gymod.



Eseia 53:4-12

Rhoddodd ef ei fywyd yn aberth dros bechod

Salm 118: 14-29

Nid ymadawodd Duw â mi

1 Ioan 2: 1-2

Bu farw Crist dros bawb

Ioan 15: 13-17

Rhoi ei einioes dros ei gyfeillion

Myfyrdod

I. Cyfeillgarwch

Os dyma yw cyfeillgarwch...
... darganfod goleuni trwy loes
... goresgyn cosb â chyfanrwydd;
... cofleidio iachâd
drwy gael eich cleisio a'ch malu
eich arteithio a'ch lladd;

os bu ef farw fel hyn,

drosom ni

ei gyfeillion,
am unwaith, dros bawb;
yna a allaf gredu?



Maximilian Kolbe

Cwestiynau

- Pa rinweddau ydych chi'n edrych amdanynt mewn ffrind?
- Beth mae'r Iesu a Kolbe yn ein dysgu am gyfeillgarwch a sut y gall hynny drawsnewid ein perthynas ni â'n ffrindiau?
- Sut allwn wneud hyn yn berthnasol i'r ffordd y mae eglwysi yn ymwneud â'i gilydd?

Gweddï

Duw y bywyd anniffoddadwy,
rwy'ti byth yn peidio â bod yn
ffrind i ni!


Ac eto mae ein perthnasau yn aml
yn fregus ac yn anwadal -
am ein bod ni'n dal gafael ar

fywyd rhag ofn ei gollu.
Trwy dy Ysbryd, rho ddeurder i ni
i bwysu ar yr Iesu, ein ffrind sydd
bob amser yn ffyddlon
er mwyn i ni ddeall yn well
beth yw ennill bywyd trwy ei gollu.
Gweddïwn yn enw'r Iesu.
Amen.

Mynd a gwneud

(www.ctbi.org.uk/goando)

- Trefnwch i gadw Diwrnod Cofio'r Holocaust ar y 27ain o Ionawr. Rhannwch weithred neu weddi ar y cyd yn eich eglwysi. Mae'r Cyngor i Gristnogion ac Iddewon (CCJ) yn cynhyrchu deunydd addoli ar ran CTBI.
- Yn 2015, roedd mwy nag 1 biliwn o ddefnyddwyr ar Facebook. Beth mae'n ei olygu i fod yn ffrind yn oes Facebook? Ystyriwch y syniadau a rennir yn sgwrs TEDx Rory Varrato. Cysylltwch â ffrind na welsoch ers tipyn.
- Darganfyddwch sut mae eglwysi yn eich ardal chi yn bod yn gefn i newydd-ddyfodiaid yn eich cymuned, gan gynnwys ffoaduriaid. Ewch i'n dolen Mynd a Gwneud am ysbrydoliaeth ac arweiniad.



DAY 1

One has died for all



Berlin Wall art

Reflection

I. Friendship

If this is friendship...
 ...to discover light through anguish
 ...to overcome punishment with wholeness;
 ...to embrace healing through being bruised and crushed tortured and killed;

if he died in this way,

for us

his friends,
 for once, for all;
 then can I believe?



Maximilian Kolbe

Questions

- What qualities do you value in your friends?
- What do Jesus and Kolbe teach us about friendships and how can that transform our own friendships?
- Can we apply this to the way our churches relate to one another?

Prayer

God of inextinguishable life,
 you never 'unfriend' us!
 Yet our relationships are often
 fragile and fickle -
 for we would hold on to life
 for fearing of losing it.
 By your Spirit, give us the courage

to lean on our ever faithful friend,
 Jesus
 so that we might understand
 more deeply
 how we gain life by laying it
 down.
 In the name of Jesus we pray.
 Amen.

Starting Point


When Paul was converted to Christ he came to a radical new understanding:
 one person has died for all. Jesus said, 'No greater love has anyone than to lay down their life for their friends.' The Franciscan Maximilian Kolbe was imprisoned in the concentration camp at Auschwitz and in 1941 willingly gave up his life so that another prisoner could live. Through Paul's preaching we see the death of Christ on the cross as the means of our reconciliation with God. Christian churches share in this same commission of proclaiming the Gospel message of reconciliation.



Go and Do

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

- Plan to mark Holocaust Memorial Day on the 27th January. Share a joint action or prayer in your churches. The Council for Christians and Jews (CCJ) produces worship material on behalf of CTBI.
- The number of users of Facebook passed 1 billion in 2015. What has friendship become in the age of Facebook? Consider the ideas shared in Rory Varrato's TEDx talk. Contact a friend today who you haven't been in touch with for a while.
- Find out how churches in your area are befriending those who are new to your community including those seeking refuge. Visit our Go and Do links for inspiration and guidance.



Isaiah 53: 4-12

He gave his life as an atoning sacrifice.

Psalms 118: 14-29

God did not abandon me to death.

1 John 2: 1-2

Christ died for all.

John 15: 13-17

Giving his life for his friends.



Cwmp Mur Berlin

Man cychwyn

Yn y blynyddoedd diwethaf, daeth unigedd cymdeithasol ac unigrwydd cynyddol yn bynciau pwysig yn yr Almaen, fel yn nifer o gymunedau cyfoes eraill. Gan gydnabod ein bod 'ni'n caru, am i Dduw yn gyntaf ein caru ni' caiff Cristnogion eu galw i ddatblygu ffurfiau newydd o fyw mewn cymuned. Ynddynt, rydym yn rhannu ein dulliau o ennill bywoliaeth gydag eraill ac yn meithrin cefnogaeth rhwng y cenedlaethau. Mae galwad yr Efengyl i beidio â byw er ein mwyn ein hunain, ond er mwyn Crist, hefyd yn ein galw i estyn allan at eraill ac i chwalu muriau unigedd.

Mica 6: 6-8

Dywedodd yr Arglwydd wrthynt beth sydd dda

Salm 25: 1-5

Duw fy iachawdwriaeth, gwna i mi wybod dy ffyrdd

1 Ioan 4: 19-21

Yr ydym ni'n caru, am i Dduw yn gyntaf ein caru ni

Mathew 16: 24-26

Pwy bynnag a gyll ei fywyd er fy mwyn i, fe'i caiff

Myfyrdod

II. Ailganfod y ffynhonnell

Fel treiddio i fyd newydd, er mwyn canfod fy ffynhonnell a fydd yn rhaid imi gollu pob synnwyr ohonof fy hunan?

Onid paradocs colli'r hunan yw fod yn rhaid imi er mwyn canfod yr arall garu a choffleidio yr hunan yn gyntaf?

Dim ond wedyn y caf ymuno Yng ngalaeth mawr 'Yr wyf'.

Cwestiynau

- Ym mha ffyrdd y gallwn ni fod yn byw er mwyn eraill yn ein bywydau beunyddiol?
- Sut mae ein diwylliant yn ein tentio i fyw er mwyn ein hunain yn unig?
- Beth yw goblygiadau eciwmenaidd yr alwad i beidio â byw er mwyn ein hunain bellach?

Gweddi

Dduw cariad,
yng Nghrist fe wnaethost ti ein rhyddhau i fyw bywyd sy'n mynd y tu hwnt i'n hunain.

Wedi ein ffurfio a'n trin gan dy Ysbryd, galluoga ni i wir fod yn chwiorydd a brodyr yng Nghrist Iesu ein Harglwydd, yn awr ac am byth. Amen.



Darganfu dirprwyaeth o arweinwyr eglwysig benywaidd o CTBI faint y mae gwlad Groeg yn ei wneud i helpu ffoaduriaid a hithau yng nghanol ei hargyfwng economaidd ei hun. (gweler www.focusonrefugees.org)

Mynd a gwneud (www.ctbi.org.uk/goanddo)

- Dewch o hyd i'r amser i ofalu amdanoch eich hun heddiw.
- Anfonwch becyn gofal addas i'r gwersylloedd i ffoaduriaid ar un o'r manau croesi Ewropeaidd megis Calais.
- Trefnwch gyfle i wylïo'r rhaglen ddogfen *Age of Loneliness* gyda grŵp bach a thrafodwch sut mae ymdrin â phroblem unigrwydd yn eich eglwys ac yn y gymuned ehangach.

DAY 2

Live no longer for themselves



Fall of the Berlin Wall

Starting Point

In recent years, social isolation and increasing loneliness have become important issues in Germany as in many contemporary societies. Recognising that “we love because God first loved us”, Christians are called to develop new forms of community life. In these we share our means of livelihood with others and nurture support between generations. The Gospel call to live not for ourselves but for Christ, is also a call to reach out to others and to break down the barriers of isolation.

Micah 6: 6-8

God has told you what is good.

Psalms 25: 1-5

God of my salvation, show me your ways.

1 John 4: 19-21

We love because God first loved us.

Matthew 16: 24-26

Those who lose their life for my sake will find it.

Reflection

II. Re-source

Like entering a new galaxy, in order to find my source must I first lose all sense of self?

Is not the paradox of self-loss that in order fully to find the other first I must know, love and embrace self.

Only then may I fold my self into the great galaxy of the ‘I am’.

Questions

- In what ways can we live for others in our daily life?
- How does our culture tempt us to live only for ourselves?
- What are the ecumenical implications of the call to live no longer for ourselves?

Prayer

Loving God,
in Christ you freed us for a life
that goes beyond ourselves.
Shaped and moulded by your



CTBI's female delegation to Greece discovered how much the country, in the middle of its own economic crisis, is doing to help refugees.

(see www.focusonrefugees.org)

Spirit,
enable us truly to become
sisters and brothers in Jesus
Christ our Lord,
now and forever. Amen.

Go and Do (see www.ctbi.org.uk/goanddo)

- Take time to care for yourself today.
- Send an appropriate care package to the refugee camps at a European crossing point such as Calais.
- Organise to watch the *Age of Loneliness* documentary with a small group and discuss how to address the problem of loneliness in your church and wider community.



Prif arweinwyr Eglwysig y DU a chynrychiolwyr eraill yn gwerthfawrogi drostynt eu hunain y broblem ffoaduriaid yn Idomeni, ar y ffin rhwng Groeg a Macedonia.

Man cychwyn

Mae darganfod yr Iesu'n newid popeth. Cafodd Paul y profiad hwnnw ar y ffordd i Damascus. Ar ôl iddynt gael eu trawsnewid gan gyfarfyddiad â Christ yn 1741, atebodd Cristnogion yr Eglwys Forafaidd yr alwad i beidio ag ystyried neb o safbwynt dynol. Bu iddynt ddewis 'ymostwng i Deyrnasiad Crist'. Wrth ymostwng ein hunain i deyrnasiad Crist heddiw, cawn ein galw i weld eraill fel y mae Duw'n eu gweld, heb ddrwgdybiaeth a rhagfarn.

1 Samuel 16: 6-7

Edrycha'r Arglwydd ar y Galon, nid ar y wedd allanol

Salm 19:7-13

Mae gorchymyn yr Arglwydd yn glir ac mae'n goleuo'r llygaid

Actau 9:1-19

Saul yn troi'n Paul

Mathew 5:1-12

Y Gwynfydau

Myfyrdod

III. Ail-ddynoli

A yw'n bosibl ein bod ni wedi dad-ddynoli plant sy'n llawn ofn a mamau sy'n ffoaduriaid er lles ein llongyddwch?

A yw'n bosibl ein bod wedi bychanu ein hunain gymaint nes bod realiti'n fwy byw trwy lygrin

nag yw wrth gyffwrdd?

A yw'n bosibl ein bod wedi cael ein gweld mor gyflawn fel bod duwdod yn dod yn fwy gweladwy drwy ein dynoliaeth oherwydd rhyw symudiad seismig?

Cwestiynau

- Ble medraf fi ddod o hyd i brofiadau Damascus yn fy mywyd i?
- Sut y mae grwpiau sydd ar y cyrion, megis ffoaduriaid, yn cael eu gweld yn eich ardal chi?
- Beth sy'n newid pan welwn Gristnogion neu bobl o grefyddau eraill trwy lygaid Duwiol?

Gweddï

Dduw, tri yn un,
Alpha ac Omega,
y tarddiad a'r terfyn,
Maddeua ein hobsesiwn â ni
ein hunain

a'n boddhad hunanfodlon.
Tro ni oddi wrth Saul a thuag
at Paul,
I fyw dy gariad grasol
Ac i dyfu yn yr undod yr wyt ti'n
ei gynnig.
Amen.

Mynd a gwneud (www.ctbi.org.uk/goanddo)

- Gwyliwch y clip ar YouTube er mwyn gweld sut mae Damascus wedi ei anrheithio gan wrthdaro.
- Gweddïwch dros y dröedigaeth ar y ffordd i Damascus sydd ei hangen er mwyn dod â heddych yno. Mae gweddïau ar gael oddi wrth Cymorth Cristnogol.
- Gweithredwch dros y rhai sy'n dianc rhag gwrthdaro ac sy'n edrych am fan diogel i alw'n gartref.



Senior UK Church leaders and representatives investigated the refugee problem first hand at Idomeni on the Greek-Macedonia border

Starting Point

Meeting Christ turns everything upside down. Paul had that experience on the road to Damascus. Transformed by their encounter with Christ, in 1741 the Christians of the Moravian Church answered the call to regard no-one from a human point of view. They chose to 'submit to Christ's Rule'. In submitting ourselves to the rule of Christ today, we are called to see others as God sees them, without mistrust or prejudice.

1 Samuel 16: 6-7

The Lord looks not at outward appearances but at the heart.

Psalms 19:7-13

The commandment of the Lord is clear, enlightening the eyes.

Acts 9:1-19

Saul becomes Paul.

Matthew 5:1-12

The Beatitudes.

Reflection

III. Re-human

Is it possible, that we have de-humanised terrified children and fleeing mothers for the sake of tranquillity?

Is it possible that we have be-littled ourselves so much that reality means more

through a screen than a touch?

Is it possible that we have been seen so completely that through a slight-seismic shift divinity becomes more visible through our humanity?

Questions

- Where can I identify Damascus experiences in my life?
- How are marginalised groups such as refugees regarded in your locality?
- What changes when we view other Christians or people of other faiths from the Godly perspective?

Prayer

God, three in one,
Alpha and Omega,
Source and destination,
Forgive our self-obsession
And smug satisfaction.

Turn us from Saul to Paul,
Living your gracious love
And growing into the unity you offer.
Amen.

Go and Do (see www.ctbi.org.uk/goanddo)

- Watch the clip on YouTube to view how Damascus has been devastated by conflict.
- Pray for the Damascus road conversion required for peace to be realised. Prayers are available from Christian Aid.
- Take action on behalf of those escaping conflict and seeking a safe place to call home.

Dyddiadau

Yn draddodiadol, cedwir yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol o 18-25 Ionawr (wyth niwrnod Pedr a Phaul). Fodd bynnag, bydd rhai grwpiau yn dewis amserau eraill o'r flwyddyn, yn enwedig oddeutu'r Pentecost, sy'n wyl symbolaidd o safbwynt undod yr eglwys. Penderfynwch chwi, gan gymryd sylw o ffactorau lleol. I ganiatáu eu defnyddio ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, nodir y defnyddiau ar gyfer y Dyddiau â'r rhifau 1-8.

Trefn y Gwasanaeth

Gallwch dynnu allan y drefn gwasanaeth yng nghanol y daflen a'i llungopïo, os mynnwch. Neu gallwch lawrlwytho'r holl adnoddau oddi ar wefan CTBI, ac y mae croeso i chwi eu golygu a'u haddasu at ddefnydd lleol. Cydnabyddwch, os gwelwch yn dda, mai ffynhonnell y deunydd yw Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, adnoddau at yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol.

Mur Undod Cristnogol

Os gwelwch yn dda, ychwanegwch fanylion a ffotograffau eich digwyddiadau, eich gweddïau a'ch negesau o undod at y 'mur' undod Cristnogol ar www.weekofprayer.org drwy ei roi ar Twitter gan ddefnyddio #wpcuwall. Bydd eich trydariadau yn ymddangos yn awtomatig (ar ôl oedi byr).

~ ~ • ~ ~

Dates

The Week of Prayer for Christian Unity is traditionally observed from 18th to 25th January (the octave of St Peter and St Paul). However, some groups choose other times of the year, particularly around Pentecost which is a symbolic date for the unity of the church. Do make your own decision, taking local factors into account. To allow for use at any time in the year, the Days material uses the notation 1-8.

Order of service

The order of service in the centre of the pamphlet can be pulled out and photocopied if you wish. Alternatively, all resources can be downloaded from the CTBI website and you are welcome to further edit or adapt them for local use. Please acknowledge the source of material as Churches Together in Britain and Ireland, Week of Prayer for Christian Unity resources.

Christian Unity wall

Please add details and photos of your events, prayers and messages of unity to the Christian unity 'wall' at www.weekofprayer.org by posting to Twitter using #wpcuwall hashtag. Posts appear automatically (after a slight delay).

~ ~ • ~ ~

Clodrestr Ffotograffau / Photo credits

t/p 1/13: Gwaith Llywodraeth yr Unol Dalaethau / United States government work
t/p 2: Rory Finneren (www.flickr.com/photos/roryfinneren/2790996311/)
t/p 3: jchapiewsky (www.flickr.com/photos/24311566@N07/5076666615/)
t/p 4: Daniel Kruczynski (www.flickr.com/photos/29759986@N03/2806164687/)
t/p 5: European Cyclists' Federation (www.flickr.com/photos/eucyclistsfed/7240645312/)
t/p 6/7 (stampiau / stamps): Vintage-Vectors / Freepik
t/p 6/7: Tanya Hart (www.flickr.com/photos/arripay/174723980/)
t/p 8/9: Raphaël Thiémarc (www.flickr.com/photos/vivaopictures/3403209391/)
t/p 26/27: Sue Ream (<https://commons.wikimedia.org>)
t/p 28/29: Stacey MacNaught (www.flickr.com/photos/staceycav/8561041065/)
t/p 30/31: Janet Swisher (www.flickr.com/photos/76909011@N00/8479104071/)
t/p 32/33: Steve Wilson (www.flickr.com/photos/gonzocarles/3659213421/)
t/p 34/35: marcus.liefeld (www.flickr.com/photos/125583323@N03/14733145535/)
t/p 36: Gwaith Llywodraeth yr Unol Dalaethau / United States government work
Mur Berlin / Berlin wall: Jeff Keyzer (www.flickr.com/photos/mightyohm/3860393026/)
Arwyddion Stryd / Street signs: Jeff Keyzer/CTBI (www.flickr.com/photos/mightyohm/3860409114/)

Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol

ADDOLIAD ECIWMENAIDD

Trefn y Gwasanaeth

ECUMENICAL WORSHIP SERVICE

Order of Service



Cymod – Cariad Crist sy'n ein gorfodi ni
(2 Corinthiaid 5:14-20)

Reconciliation – The love of Christ compels us
(2 Corinthians 5:14-20)

© Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon

© Churches Together in Britain and Ireland



Y DOD YNGHYD

Cenir emyn wrth i Feibl neu Lithiadur gael ei gludo i'r blaen mewn gorymdaith.

Naill ai

Arweinydd Yn enw'r Tad, a'r Mab a'r Ysbryd Glân.

Pawb Amen.

Neu

Arweinydd Yn enw Duw, Creawdwr, Waredwr a Chynhaliwr.

Pawb Amen.

Arweinydd Gras a thangnefedd i chi oddi wrth Dduw sydd wedi ein cymodi ni ag ef ei hun drwy Grist.

Eleni fe fydd nifer o Gristnogion yn dathlu pen-blwydd y Diwygiad yn yr Almaen. Fel y darganfu Luther ei fod ef wedi ei gymodi â Christ drwy ffydd, fe gofiwn ni fod Duw wedi ein cymodi ni drwy Iesu Grist, a'i gariad ef sy'n ein gorfodi ni i fod yn weinidogion cymod.

CYFFESU

Arweinydd Mae angen i'r Eglwys ddod yn nes at yr Iesu yn barhanol. Wrth i ni dyfu mewn cariad tuag at Grist, fe dyfwn mewn cariad tuag at ein gilydd. Ond wrth ymdrechu i wneud hyn, rydym wedi tyfu ar wahân ac ymrannu. Gan gofio gweddi'r Iesu ei hun ar inni oll fod yn un er mwyn i'r byd ddod i gredu, cyffeswn ein pechodau a cheisiwn iachâd am y clwyfau yr ydym wedi achosi i'n gilydd o ganlyniad i'n rhaniadau.

Ceir cyfnod o ddistawrwydd.

Cydnabyddwn gerbron Duw ein bod wedi methu bod yn feini byw iddo a'n bod wedi adeiladu muriau i'n gwahanu oddi wrth eraill.

GATHERING

A hymn is sung while a Bible or Lectionary is brought forward in a procession.

Either

Leader In the name of the Father and of the Son and of the Holy Spirit.

All Amen.

or

Leader In the name of God, Creator, Redeemer and Sustainer.

All Amen.

Leader Grace and peace to you from God, who has reconciled us to himself through Christ.

This year many Christians will be commemorating the anniversary of the Reformation in Germany. As Luther discovered himself reconciled to Christ by faith, we remember that God has reconciled us through Jesus Christ whose love compels us to be ministers of reconciliation.

CONFESSING

Leader The Church always needs to grow closer to Jesus, for as we grow in love for Jesus we grow in love for each other. But as we have sought to do this we have instead grown apart and become divided. Mindful that Jesus himself prayed that we may all be one, that the world might believe, let us confess our sins and seek healing for the wounds we have inflicted on each other as a result of our division.

A period of silence follows.

We acknowledge before God that we have failed to be his living stones and have built walls of division.

Cyn pob un o'r ymbiliau a ganlyn, daw aelod o'r gynulleidfa ymlaen gydag un o'r meini o ran gwahanol o'r eglwys, er mwyn adeiladu wal a chynnig y cais perthnasolol am faddeuant.

Darllenydd 1 Y maen hwn yw 'diffyg cariad'.
Dduw grasol,
mae cariad Crist yn ein gorfodi i
geisio maddeuant am yr adegau
pan ydym wedi methu caru.

Darllenydd 2 Y maen hwn yw 'casineb a dirmyg'.
Dduw grasol,
mae cariad Crist yn ein gorfodi i
geisio maddeuant am ein
casineb a'n dirmyg tuag at eraill.

Darllenydd 3 Y maen hwn yw 'camgyhuddo'.
Dduw grasol,
mae cariad Crist yn ein gorfodi i
geisio maddeuant am
gondemnio a chamgyhuddo
ein gilydd.

Cenir Kyrie neu ryw ymbiliad arall.

Darllenydd 4 Y maen hwn yw 'gwahaniaethu'.
Dduw grasol,
mae cariad Crist yn ein gorfodi
i geisio maddeuant am bob
math o ragfarn a gwahaniaethu
yn erbyn ein gilydd.

Darllenydd 5 Y maen hwn yw 'erledigaeth'.
Dduw grasol,
mae cariad Crist yn ein gorfodi i
geisio maddeuant am inni erlid
ac arteithio ein gilydd.

Darllenydd 6 Y maen hwn yw 'diffyg cyfathrebu'.
Dduw grasol,
mae cariad Crist yn ein gorfodi i
geisio maddeuant am hybu'r
diffyg cyfathrebu sy'n bod
rhwng ein heglwysi.

Cenir Kyrie neu ryw ymbiliad arall.

Before each of the following petitions a member of the congregation brings a stone forward, from different parts of the church to build a wall and makes the relevant plea for forgiveness.

Reader 1 This stone is 'lack of love'.
Gracious God,
the love of Christ compels us to seek
forgiveness for whenever we have
failed to love.

Reader 2 This stone is 'hate and contempt'.
Gracious God,
the love of Christ compels us to seek
forgiveness for our hate and contempt
for one another.

Reader 3 This stone is 'false accusation'.
Gracious God,
the love of Christ compels us to seek
forgiveness for denouncing and falsely
accusing one another.

A Kyrie or another short invocation is sung.

Reader 4 This stone is 'discrimination'.
Gracious God,
the love of Christ compels us to seek
forgiveness for all forms of prejudice
and discrimination against
one another.

Reader 5 This stone is 'persecution'.
Gracious God,
the love of Christ compels us to seek
forgiveness for persecuting and
torturing one another.

Reader 6 This stone is 'broken communion'.
Gracious God,
the love of Christ compels us to seek
forgiveness for perpetuating broken
communion among our churches.

A Kyrie or another short invocation is sung.

Darllenydd 7	Y maen hwn yw ‘anoddefgarwch’. Dduw grasol, mae cariad Crist yn ein gorfodi i geisio maddeuant am weithredoedd sy’n cynnwys anoddefgarwch crefyddol yn hanesyddol a heddiw.	Reader 7	This stone is ‘intolerance’. Gracious God, the love of Christ compels us to seek forgiveness for acts of religious intolerance in history and today.
Darllenydd 8	Y maen hwn yw ‘rhyfeloedd crefyddol a gwrthdrawiadau’. Dduw grasol, mae cariad Crist yn ein gorfodi i geisio maddeuant am bob rhyfel a gwrthdrawiad a gychwynasom yn erbyn ein gilydd yn ei enw ef.	Reader 8	This stone is ‘religious wars and conflicts’. Gracious God, the love of Christ compels us to seek forgiveness for all wars and conflicts that we have waged against one another in his name.
Darllenydd 9	Y maen hwn yw ‘ymraniadau’. Dduw grasol, mae cariad Crist yn ein gorfodi i geisio maddeuant am fyw ein bywydau Cristnogol ar wahân i’n gilydd ac ymhell oddi wrth ein galwad gyffredin i iacháu yr holl greadigaeth.	Reader 9	This stone is ‘division’. Gracious God, the love of Christ compels us to seek forgiveness for living our Christian lives divided from one another and astray from our common calling for the healing of all creation.
<i>Cenir Kyrie neu ryw ymbiliad arall.</i>		<i>A Kyrie or another short invocation is sung.</i>	
Darllenydd 10	Y maen hwn yw ‘camddefnyddio grym’. Dduw grasol, mae cariad Crist yn ein gorfodi i geisio maddeuant am ein camddefnydd o rym.	Reader 10	This stone is ‘abuse of power’. Gracious God, the love of Christ compels us to seek forgiveness for our abuse of power.
Darllenydd 11	Y maen hwn yw ‘arwahanrwydd’. Dduw grasol, mae cariad Crist yn ein gorfodi i geisio maddeuant am yr adegau pan ydym wedi ceisio bod ar wahân i’n chwiorydd a’n brodyn Cristnogol a’r cymunedau yr ydym yn byw ynddynt.	Reader 11	This stone is ‘isolation’. Gracious God, the love of Christ compels us to seek forgiveness for the times when we have isolated ourselves from our Christian sisters and brothers and from the communities in which we live.
Darllenydd 12	Y maen hwn yw ‘balchder’. Dduw grasol, mae cariad Crist yn ein gorfodi i geisio maddeuant am ein balchder.	Reader 12	This stone is ‘pride’. Gracious God, the love of Christ compels us to seek forgiveness for our pride.
Pawb	Arglwydd, ein Duw, edrycha ar y mur yr ydym wedi ei godi, sy’n ein gwahanu oddi wrthyt ac oddi wrth ein gilydd.	All	Lord, our God, look upon this wall that we have built, which separates us from you and from one another.

**Maddeua ein pechodau ac iacha ni.
Helpa ni i oresgyn yr holl furiau sy'n
ein gwahanu
a gwna ni'n un ynot ti. Amen.**

*Gellir defnyddio'r geiriau a ganlyn o Eseciel a rhannu'r
Tangnefedd yma neu ar ôl y Darlleniadau a'r Bregeth.*

Arweinydd Rhodded yr Arglwydd galon newydd ac
ysbryd newydd o'ch mewn;
tynned ymaith ohonoch eich
calon garreg
a rhoi ichi galon o gnawd;
rhodded ysbryd newydd ynoch
er mwyn i chi rodio ffyrdd Duw a
charu gorchmynion Duw.
(Seiliedig ar Eseciel 36:25-27)

Y TANGNEFEDD

Arweinydd Crist yw ein heddwch ni, ef a'n gwnaeth
ni'n un a thrwy ei gnawd ei hun fe
chwalodd y canolfur o elyniaeth a oedd yn
ein gwahanu. (Eff. 2.14)

Tangnefedd yr Arglwydd a fo gyda chwi
bob amser.

Pawb A hefyd gyda thi.

Rhennir arwydd tangnefedd.

*Cenir emyn neu gân neu chwaraeir darn o
gerddoriaeth ffyriol.*

GWRANDO

Yr Epistol

2 Corinthiaid 5:14-20

Oherwydd y mae cariad Crist yn ein gorfodi ni, a
ninnau wedi ein hargyhoeddi o hyn: i un farw dros
bawb, ac felly i bawb farw. A bu ef farw dros bawb er
mwyn i'r byw beidio â byw iddynt eu hunain mwyach,
ond i'r un a fu farw drostynt, ac a gyfodwyd. O hyn
allan, felly, nid ydym yn ystyried neb o safbwynt dynol.
Hyd yn oed os buom yn ystyried Crist o safbwynt
dynol, nid ydym yn ei ystyried felly mwyach. Felly, os yw
rhywun yng Nghrist, y mae'n greadigaeth newydd; aeth
yr hen heibio, y mae'r newydd yma.

**Forgive us our sins and heal us.
Help us to overcome all walls of division
and make us one in you. Amen.**

*The following words from Ezekiel and the Peace may be
spoken here or after the Readings and Sermon.*

Leader May God give you a new heart and a new
spirit remove your heart of stone
give you a new heart of flesh
put a new Spirit within you
so that you may walk in God's ways and
love God's commandments.
(Based on Ezekiel 36:25-27)

THE PEACE

Leader Christ is our peace, he has made us one
and has broken down in his flesh the
dividing wall of hostility. (Eph. 2.14)

The peace of the Lord be with
you always.

All And also with you.

A sign of peace is exchanged.

*A hymn or song is sung or a piece of meditative music
is played.*

HEARING

Epistle

2 Corinthians 5:14-20

For the love of Christ urges us on, because we are
convinced that one has died for all; therefore all have
died. And he died for all, so that those who live might
live no longer for themselves, but for him who died and
was raised for them. From now on, therefore, we regard
no one from a human point of view; even though we
once knew Christ from a human point of view, we know
him no longer in that way. So if anyone is in Christ,
there is a new creation: everything old has passed away;
see, everything has become new!

Ond gwaith Duw yw'r cyfan—Duw, yr hwn sydd wedi ein cymodi ni ag ef ei hun trwy Grist a rhoi i ni weinidogaeth y cymod. Hynny yw, yr oedd Duw yng Nghrist yn cymodi'r byd ag ef ei hun, heb ddal neb yn gyfrifol am ei droseddau, ac y mae wedi ymddiried i ni neges y cymod. Felly cenhadon dros Grist ydym ni, fel pe bai Duw yn apelio atoch trwom ni. Deisyf yr ydym dros Grist, cymoder chwi â Duw.

Salm Ateb : 18:26-32 (*gellir ei chanu*)

Caraf di, O Arglwydd, fy nghryfder

Yr wyt yn ffyddlon i'r ffyddlon
ond i'r cyfeiliornus yr wyt yn wyrgam.
Oherwydd yr wyt yn gwaredu'r rhai gostyngedig
ac yn darostwng y beilchion. **A./**

Ti sy'n goleuo fy llusern, Arglwydd,
fy Nuw sy'n troi fy nhywyllwch yn ddisglair.
Oherwydd trwot ti y gallaf oresgyn llu;
trwy fy Nuw gallaf neidio dros fur. **A./**

Y Duw hwn, y mae'n berffaith ei ffordd
ac y mae gair yr Arglwydd wedi ei brofi'n bur.
Y mae ef yn darian i bawb sy'n llochesu ynddo. **A./**

Pwy sydd Dduw ond yr Arglwydd?
A phwy sydd graig ond ein Duw ni,
y Duw sy'n fy ngwregysu â nerth,
ac yn gwneud fy ffordd yn ddifeius? **A./**

Alelwia (ar gân)

Yr Efengyl

Luc 15:11-32

Ac meddai, "Yr oedd dyn a chanddo ddau fab. Dywedodd yr ieuengaf ohonynt wrth ei dad, 'Fy nhad, dyro imi'r gyfran o'th ystad sydd i ddod imi.' A rhannodd yntau ei eiddo rhyngddynt.

All this is from God, who reconciled us to himself through Christ, and has given us the ministry of reconciliation; that is, in Christ God was reconciling the world to himself, not counting their trespasses against them, and entrusting the message of reconciliation to us. So we are ambassadors for Christ, since God is making his appeal through us; we entreat you on behalf of Christ, be reconciled to God.

Responsorial Psalm: 18:26-32 (*may be sung*)

I love you, Lord, my strength.

You are loving with those who love you:
but the cunning you outdo in cunning.
For you save a humble people
but humble the eyes that are proud. **R./**

You, O Lord, are my lamp,
my God who lightens my darkness.
With you I can break through any barrier,
with my God I can scale any wall. **R./**

As for God, his ways are perfect;
the word of the Lord, purest gold.
He indeed is the shield
of all who make him their refuge. **R./**

For who is God but the Lord?
Who is a rock but our God?
the God who girds me with strength
and makes the path safe before me. **R./**

Alleluia (sung)

Gospel Reading

Luke 15:11-32

Jesus said, "There was a man who had two sons. The younger of them said to his father, 'Father, give me the share of the property that will belong to me.' So he divided his property between them.

Ychydig ddyddiau yn ddiweddarach, wedi newid y cwbl am arian, ymfudodd y mab ieuengaf i wlad bell, ac yno gwastraffodd ei eiddo ar fyw'n afradlon. Pan oedd wedi gwario'r cyfan, daeth newyn enbyd ar y wlad honno, a dechreuodd yntau fod mewn eisiau. Aeth ac ymlynu wrth un o ddinasyddion y wlad, ac anfonodd hwnnw ef i'w gaeau i ofalu am y moch. Buasai'n falch o wneud pryd o'r plisg yr oedd y moch yn eu bwyta; ond nid oedd neb yn cynnig dim iddo. Yna daeth ato'i hun a dweud, 'Faint o weision cyflog sydd gan fy nhad, a phob un ohonynt yn cael mwy na digon o fara, a minnau yma yn marw o newyn? Fe godaf, ac fe af at fy nhad a dweud wrtho, "Fy nhad, pechais yn erbyn y nef ac yn dy erbyn di. Nid wyf mwyach yn haeddu fy ngalw'n fab iti; cymer fi fel un o'rh weision cyflog." Yna cododd a mynd at ei dad. A phan oedd eto ymhell i ffwrdd, gwelodd ei dad ef. Tosturiodd wrtho, rhedodd ato, a rhoes ei freichiau am ei wddf a'i gusanu. Ac meddai ei fab wrtho, 'Fy nhad, pechais yn erbyn y nef ac yn dy erbyn di. Nid wyf mwyach yn haeddu fy ngalw'n fab iti.' Ond meddai ei dad wrth ei weision, 'Brysiwch! Dewch â gwisg allan, yr orau, a'i gosod amdano. Rhowch fodrwy ar ei fys a sandalau am ei draed. Dewch â'r llo sydd wedi ei besgi, a lladdwch ef. Gadewch inni wledda a llawenhau, oherwydd yr oedd hwn, fy mab, wedi marw, a daeth yn fyw eto; yr oedd ar goll, a chafwyd hyd iddo.' Yna dechreusant wledda yn llawen. Yr oedd ei fab hynaf yn y caeau. Pan nesaodd at y tŷ ar ei ffordd adref, clywodd sŵn cerddoriaeth a dawnsio. Galwodd un o'r gweision ato a gofyn beth oedd ystyr hyn. 'Dy frawd sydd wedi dychwelyd,' meddai ef wrtho, 'ac am iddo ei gael yn ôl yn holliach, y mae dy dad wedi lladd y llo oedd wedi ei besgi.' Digiodd ef, a gwrthod mynd i mewn. Daeth ei dad allan a'i gymell yn daer i'r tŷ, ond atebodd ef, 'Yr holl flynyddoedd hyn bŵm yn was bach iti, heb anufuddhau erioed i'rh orchymyn. Ni roddest erioed i mi gymaint â myn gafr, imi gael gwledda gyda'm cyfeillion. Ond pan ddychwelodd hwn, dy fab sydd wedi difa dy eiddo gyda phuteiniaid, lleddast iddo ef y llo oedd wedi ei besgi.' 'Fy mhlentyn,' meddai'r tad wrtho, 'yr wyt ti bob amser gyda mi, ac y mae'r cwbl sydd gennyf yn eiddo i ti. Yr oedd yn rhaid gwledda a llawenhau, oherwydd yr oedd hwn, dy frawd, wedi marw, a daeth yn fyw; yr oedd ar goll, a chafwyd hyd iddo.'

A few days later the younger son gathered all he had and travelled to a distant country, and there he squandered his property in dissolute living. When he had spent everything, a severe famine took place throughout that country, and he began to be in need. So he went and hired himself out to one of the citizens of that country, who sent him to his fields to feed the pigs. He would gladly have filled himself with the pods that the pigs were eating; and no one gave him anything. But when he came to himself he said, 'How many of my father's hired hands have bread enough and to spare, but here I am dying of hunger! I will get up and go to my father, and I will say to him, "Father, I have sinned against heaven and before you; I am no longer worthy to be called your son; treat me like one of your hired hands."' So he set off and went to his father. But while he was still far off, his father saw him and was filled with compassion; he ran and put his arms around him and kissed him. Then the son said to him, 'Father, I have sinned against heaven and before you; I am no longer worthy to be called your son.' But the father said to his slaves, 'Quickly, bring out a robe—the best one—and put it on him; put a ring on his finger and sandals on his feet. And get the fatted calf and kill it, and let us eat and celebrate; for this son of mine was dead and is alive again; he was lost and is found!' And they began to celebrate. Now his elder son was in the field; and when he came and approached the house, he heard music and dancing. He called one of the slaves and asked what was going on. He replied, 'Your brother has come, and your father has killed the fatted calf, because he has got him back safe and sound.' Then he became angry and refused to go in. His father came out and began to plead with him. But he answered his father, 'Listen! For all these years I have been working like a slave for you, and I have never disobeyed your command; yet you have never given me even a young goat so that I might celebrate with my friends. But when this son of yours came back, who has devoured your property with prostitutes; you killed the fatted calf for him!' Then the father said to him, 'Son, you are always with me, and all that is mine is yours. But we had to celebrate and rejoice, because this brother of yours was dead and has come to life; he was lost and has been found.'

Alelwia (ar gân)

Alleluia (sung)

PREGETH

SERMON

CREDO

CREED

Credwn yn un Duw,
Y Tad, yr hollalluog,
gwneuthurwr nef a daear,
a phob peth gweledig ac anweledig.
Credwn yn un Arglwydd Iesu Grist,
unig Fab Duw,
a genhedlwyd gan y Tad cyn yr holl oesoedd,
Duw o Dduw, Llewyrch o Lewyrch,
gwir Dduw o wir Dduw,
wedi ei genhedlu, nid wedi ei wneuthur,
yn un hanfod â'r Tad,
a thrwyddo ef y gwnaed pob peth.
Er ein mwyn ni ac er ein hiachawdwriaeth
disgynnodd o'r nefoedd;
trwy nerth yr Ysbryd Glân daeth yn gnawd o
Fair Forwyn,
ac fe'i gwnaed yn ddyn,
Fe'i croeshoeliwyd drosom dan Pontius Pilat.
Dioddefodd angau ac fe'i claddwyd.
Atgyfododd y trydydd dydd yn ôl yr Ysgrythurau,
ac esgynnodd i'r nef,
ac y mae'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad.
A daw drachefn mewn gogoniant
i farnu'r byw a'r meirw:
ac ar ei deyrnas ni bydd diwedd.
Credwn yn yr Ysbryd Glân,
yr Arglwydd, rhoddwr bywyd,
sy'n deillio o'r Tad a'r Mab,
ac ynghyd â'r Tad a'r Mab
a gydaddolir ac a gydogoneddir,
ac a lefarodd trwy'r proffwydi.
Credwn yn un Eglwys lân gatholig ac apostolig.
Cydnabyddwn un bedydd er maddeuant pechodau.
A disgwyliwn am atgyfodiad y meirw,
a bywyd y byd sydd i ddyfod.
Amen.

We believe in one God,
the Father, the Almighty,
maker of heaven and earth,
of all that is, seen and unseen.
We believe in one Lord, Jesus Christ,
the only Son of God,
eternally begotten of the Father,
God from God, Light from Light,
true God from true God,
begotten, not made,
of one Being with the Father;
through him all things were made.
For us and for our salvation
he came down from heaven,
was incarnate of the Holy Spirit and the
Virgin Mary
and became truly human.
For our sake he was crucified under Pontius Pilate;
he suffered death and was buried.
On the third day he rose again
in accordance with the Scriptures;
he ascended into heaven
and is seated at the right hand of the Father.
He will come again in glory to judge the living and
the dead,
and his kingdom will have no end.
We believe in the Holy Spirit, the Lord, the giver
of life,
who proceeds from the Father [and the Son],
who with the Father and the Son is worshiped
and glorified,
who has spoken through the prophets.
We believe in one holy catholic and apostolic Church.
We acknowledge one baptism for the forgiveness
of sins.
We look for the resurrection of the dead,
and the life of the world to come. Amen.

Os na ddefnyddiwyd y geiriau a ganlyn o Eseciel a'r Tangnefedd eisoes, dylid eu cynnwys yma.

Arweinydd Rhodded yr Arglwydd galon newydd ac ysbryd newydd o'ch mewn; tynned ymaith ohonoch eich calon garreg a rhoi ichi galon o gnawd; rhodded ysbryd newydd ynoch er mwyn i chi rhodio ffyrdd Dduw a charu gorchmynion Duw.

(Seiliedig ar Eseciel 36:25-27)

Y TANGNEFEDD

Arweinydd Crist yw ein heddwch ni, ef a'n gwnaeth ni'n un a thrwy ei gnawd ei hun fe chwalodd y canolfur o elyniaeth oedd yn ein gwahanu. (Eph. 2.14)

Tangnefedd yr Arglwydd a fo gyda chwi bob amser.

Pawb A hefyd gyda thi.

Rhennir arwydd y tangnefedd.

YMATEB

Arweinydd Bu farw'r cyfan sy'n ein gwahanu oddi wrth Dduw gyda Christ ar y Groes. Gan ein bod ni unwaith eto'n un ag ef, ymrwymwn ein hunain, yn nerth ei Ysbryd, i dymchwel y muriau sy'n ein gwahanu ac i fod yn un a'n gilydd, er mwyn i enw Crist gael ei ogoneddu, i'r deyrnas ddod, ac er mwyn gwneud ewyllys Duw.

Cenir cân o gymod neu emyn yn dathlu gogoniant y groes tra dymchwelir y mur a'i ailffurfio ar lun croes.

YR YMBILIAU

Ar ôl pob ymbiliad, mae rhywun yn goleuo kannwyl o ffynhonnell oleuni ganolog (er enghraifft kannwyl Basg) gan aros yn sefyll o gwmpas y groes

If the words from Ezekiel and the Peace were not used earlier, they should be included here.

Leader May God give you a new heart and a new spirit
remove your heart of stone
give you a new heart of flesh
put a new Spirit within you
so that you may walk in God's ways and love God's commandments.

(Based on Ezekiel 36:25-27)

THE PEACE

Leader Christ is our peace, he has made us one and has broken down in his flesh the dividing wall of hostility. (Eph. 2.14)
The peace of the Lord be with you always.

All And also with you.

A sign of peace is exchanged.

RESPONDING

Leader All that divides us from God died with Christ on the cross.
As we are again one with him, we commit ourselves, in the power of his Spirit, to break down our divisions and become one with each other, so that Christ's name be glorified, the kingdom come and God's will be done.

A song of reconciliation or hymn of the glory of the cross while the wall is dismantled and formed in the shape of a cross.

INTERCESSORY PRAYERS

After each petition, a person lights a candle from a central source of light (for example a Paschal candle). Remain standing around the cross.

Darllenydd 1 Hollalluog Dduw,
anfonaist dy Fab Iesu Grist er mwyn
cymodi'r byd â thi dy hun.
Canmolwn di oherwydd trwy
dy Efengyl,
gelwaist ynghyd gymuned o gariad ym
mhob rhan o'r ddaear,
ac am fod modd i'th weision ym mhob
man alw ar dy enw.
Boed i'th Ysbryd ennyn ym mhob
cymuned newyn a syched
am undod.

Arglwydd, yn dy drugaredd,

Pawb **Gwrando ein gweddi**
(Ymateb ar lafar neu ar gân)

Darllenydd 2 Dduw grasol,
gweddiwn dros ein heglwysi.
Llanw hwy â phob gwirionedd a
thangnefedd.
Lle bo ffydd yn llygredig, pura hi;
lle bo pobl ar gyfeiliorn,
ailgyfeiria hwy;
lle maent yn methu â chyhoeddi'r
Efengyl, diwygia hwy;
lle maent yn tystio i'r hyn sy'n iawn,
nertha hwy;
lle maent mewn angen, darpara ar
eu cyfer;
lle maent ar wahân i'w gilydd,
una hwy.

Arglwydd, yn dy drugaredd,

Pawb **Gwrando ein gweddi**
(Ymateb ar lafar neu ar gân)

Darllenydd 3 Dduw y Creawdwr,
gwnaethost ni ar dy lun a'th ddelw dy
hun ac achubaist ni trwy Iesu Grist
dy Fab.
Bydd yn drugarog wrth yr holl
deulu dynol;
cymer ymaith y balchder a'r casineb
sy'n gwenwyno ein calonnau;
dymchwel y muriau sy'n ein gwahanu,
ac una ni â rhwymyn cariad.

Reader 1 Almighty God,
you sent your son Jesus Christ to reconcile
the world to yourself.
We praise you because though your Gospel,
in all parts of the earth a community of love
has been gathered together,
and that in every place your servants call
upon your name.
May your Spirit awaken in every
community a hunger and thirst for unity.

Lord, in your mercy,

All **Hear our prayer**
(Spoken/Sung response)

Reader 2 Gracious God,
we pray for our churches. Fill them with all
truth and peace.
Where faith is corrupt, purify it;
where people go astray, redirect them;
where they fail to proclaim your Gospel,
reform them;
where they witness to what is right,
strengthen them;
where they are in need, provide for them;
and where they are divided, reunite them.

Lord, in your mercy,

All **Hear our prayer**
(Spoken/Sung response)

Reader 3 Creator God,
you made us in your own image and
redeemed us through Jesus Christ
your Son.
Look with compassion on the whole
human family;
take away the arrogance and hatred that
infect our hearts;
break down the walls that separate us, and
unite us in bonds of love.

Defnyddia hyd yn oed ein gwendid i
gyflawni dy fwriadau ar y ddaear,
er mwyn i bob person a chenedl dy
wasanaethu mewn cytgorod o
amgylch yr orsedd nefol.

Arglwydd, yn dy drugaredd,

Pawb **Gwranddo ein gweddi**

(Ymateb ar lafar neu ar gân)

Darllenydd 4 Ysbryd Glân, Rhoddwr Bywyd,
Crëir ni i ddod yn gyflawn ynot ti
ac i rannu'r bywyd hwn ar y ddaear
gyda'n brodyr a'n chwiorydd.
Deffra ym mhawb ohonom dosturi
a chariad.
Rho inni nerth a gwroldeb i weithio
dros gyfiawnder yn ein cymunedau,
i greu heddwch o fewn ein teuluoedd,
i gysuro'r claf a'r rhai sy'n marw,
ac i rannu'r cyfan sydd gennym gyda'r
rhai sydd mewn angen.
Am drawsnewid pob calon
ddynol, gweddiwn:

Arglwydd, yn dy drugaredd

Pawb **Gwranddo ein gweddi**

(Ymateb ar lafar neu ar gân)

GWEDDI'R ARGWLWYDD

*Dywedir neu genir Gweddi'r Arglwydd yn y ffurf sydd
fwyaf addas ar gyfer eich cyd-destun.*

YR ANFON ALLAN

Cenir emyn.

*Mae'r cynorthwyywyr yn lledaenu'r golau kannwyll drwy'r
gynulleidfya nes bod gan bawb kannwyll yn olau.*

Even through our weaknesses, work to
accomplish your purposes on earth,
so that every people and nation may serve
you in harmony around your
heavenly throne.

Lord, in your mercy,

All **Hear our prayer**

(Spoken/Sung response)

Reader 4 Holy Spirit, Giver of Life,
we are created to become whole in you
and to share this life on earth with our
brothers and sisters.
Awaken in each of us your compassion
and love.
Give us strength and courage to work for
justice in our neighbourhoods,
to create peace within our families,
to comfort the sick and the dying,
and to share all we have with those who
are in need.
For the transformation of every human
heart, we pray:

Lord, in your mercy,

All **Hear our prayer**

(Spoken/Sung response)

THE LORD'S PRAYER

*The Lord's Prayer is said or sung in the form most
appropriate to your context.*

SENDING

A Hymn is sung

*The assistants spread the candlelight throughout the
congregation until each person has a lighted candle.*

Arweinydd Iesu yw goleuni'r byd, goleuni na all y tywyllwch ei drechu.
Ewch â'i oleuni i'r byd, i lefydd tywyll lle mae ymladd, anghytgord a rhaniadau yn rhwystro ein tystiolaeth unedig.
Bydded i oleuni Crist ddod â chymod i'n meddyliau, i'n geiriau a'n gweithredoedd.

Leader Jesus is the light of the world, a light that darkness cannot overcome.
Carry his light into the world, into the dark places where fighting, discord and division impede our united witness.
May Christ's light effect reconciliation in our thoughts, words and deeds.

Y FENDITH

Arweinydd Galwn arnat, Dduw drugarocaf:
Bendithia ac annog pawb sy'n ceisio cymod fel y gallont adnabod a chyhoeddi dy fawr weithredoedd o gariad.
Gofynnwn am hyn yn enw Iesu Grist, dy fab, ein Harglwydd.

Leader We call out to you, most merciful God: Bless and encourage all those who seek reconciliation so they may know and proclaim your mighty deeds of love.
We ask this in the name of Jesus Christ, your son, our Lord.

Pawb Amen

All Amen

Naill ai

Either

Arweinydd Bendith Duw Hollalluog, y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.

Leader May the blessing of Almighty God, the Father, and the Son, and the Holy Spirit be upon you and remain with you always.

Pawb Amen.

All Amen

Neu

Or

Arweinydd Bendith Duw Hollalluog, Creawdwr, Waredwr a Chynhaliwr a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.

Leader May the blessing of Almighty God, Creator, Redeemer and Sustainer be upon you and remain with you always.

Pawb Amen

All Amen

Arweinydd Ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd.

Leader Go in Peace to love and serve the Lord.

Pawb Diolch a fo i Dduw

All Thanks be to God.

Cenir unawd organ neu ddarn addas arall o gerddoriaeth a thra bod hyn yn digwydd, derbynnir y casgliad wrth ymadael.

An organ voluntary or other suitable music is played, during which a retiring collection is taken.

Dyfyniadau o'r Beibl o Y Beibl Cymraeg Newydd, hawffraint 1988, 2004. Y Gymdeithas Feiblaidd Frytanaidd a Thramor. Wedi eu defnyddio trwy ganiatâd.

Bible verses from the New Revised Standard Version Bible: Anglicized Edition, copyright 1989, 1995, Division of Christian Education of the National Council of the Churches of Christ in the United States of America. Used by permission. All rights reserved.

Cydnabyddiaeth

Awduron Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol CTBI 2017

Bob blwyddyn y mae Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI) yn cydweithio â nifer o wahanol awduron o fewn y pedair gwlad i gynhyrchu'r deunyddiau hyn ichwi eu defnyddio. Er mwyn cydnabod y cydweithrediad hwn yr ydym wedi rhestru isod y rhai a'n cynorthwyodd i gyflawni'r dasg hon ar gyfer 2017:

Yr Hybarch Ddr Tim Stratford	- Llywydd grŵp awduron Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol CTBI ac Archddiacon Caer-lŷr.
Bob Fyffe	- Ysgrifennydd Cyffredinol, CTBI
Y Parchg Peter Colwell	- Dirprwy Ysgrifennydd Cyffredinol, CTBI
Y Parchg Ddr Adrian Burdon	- Gweinidog â Gofal, Cylchdaith yr Eglwys Fethodistaidd yn South Fylde
Y Parchg Ddr David Cornick	- Ysgrifennydd Cyffredinol Churches Together in England (CTE)
Ruth Harvey	- Ymgynghorydd a Hwylusydd Shoreline Conversations ac aelod o Gymuned Iona
Philip Mellstrom	- Gweithiwr Datblygu Addoliad. Eglwys yr Alban
Y Parchg Ddr Adrian Morgan	- Curad Cynorthwyol Gorseinon yn Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu a Chaplan Coleg Gŵyr, Abertawe
Y Tad Damian McNeice	- Meistr Defodau Archesgobaeth Dilyn
Y Parchg Ganon Ddr Daniel Nuzum	- Caplan Ysbyty, Eglwys Iwerddon
Jenny Sheehan	- Comisiynydd Pregethu Lleyg, Synod y De yn yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig
Wendy Young	- Swyddog Adnoddau Eglwysig, Cymorth Cristnogol

~ ~ • ~ ~

Acknowledgements

CTBI WPCU 2017 Writers

Each year Churches Together in Britain and Ireland (CTBI) works in collaboration with various writers from within the four nations to produce these materials for your use. In acknowledgment of this collaboration we have listed below the colleagues who have helped us accomplish this task for 2017:

The Venerable Dr Tim Stratford	- Moderator of the CTBI WPCU writers group and Archdeacon of Leicester
Bob Fyffe	- General Secretary, CTBI
Revd Peter Colwell	- Deputy General Secretary, CTBI
The Revd Dr Adrian Burdon	- Superintendent Minister, The South Fylde Circuit of the Methodist Church
Revd Dr David Cornick	- General Secretary of Churches Together in England (CTE)
Ruth Harvey	- Consultant and Facilitator of Shoreline Conversation and member of the Iona Community
Philip Mellstrom	- Worship Development Worker, Church of Scotland
The Revd Dr Adrian Morgan	- Assistant Curate of Gorseinon in the Diocese of Swansea and Brecon and Chaplain to Gower College Swansea
Fr Damian McNeice	- Master of Ceremonies for Dublin Archdiocese
The Revd Canon Dr Daniel Nuzum	- Hospital Chaplain, Church of Ireland
Jenny Sheehan	- Lay Preaching Commissioner, URC Southern Synod
Wendy Young	- Church Resources Officer, Christian Aid



Porth Brandenburg adeg cwmp Mur Berlin

Man cychwyn

Yn ystod y flwyddyn hon, mae nifer o Gristnogion yn cofio am waith Martin Luther a diwygwyr eraill. Newidiodd y Diwygiad lawer ym mywyd yr Eglwys Orllewinol. Tystiodd Cristnogion o bob traddodiad mewn modd arwrol a chawsant eu hadnewyddu yn eu bywyd Cristnogol. Dywed yr ysgrythur ei bod yn bosibl inni aros yn ein hunfan pan fyddwn yn edrych yn ôl. Mae'n bwysig inni beidio â chael ein cyfyngu gan yr hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Gall yr Ysbryd Glân ein hebrwng i ddyfodol lle medrwn oresgyn yr hyn sy'n ein gwahanu a lle y gwneir pobl Duw yn un â'i gilydd.

Genesis 19:15-26

Paid edrych yn ôl

Salm 77: 5-15

Mae'r Arglwydd yn ffyddlon bob amser

Philipiaid 3: 7-14

Anghofio am yr hyn a fu

Luc 9:57-62

Dal gafael yn yr aradr

Myfyrdod

IV. Cofia

Y mae oedi'n rhy hir
Yn niwlen amser
gan fygu'r gorffennol
mewn hiraeth
neu ddigofaint sy'n llawn
bwrw bai
yn amdoi, megis bedd,
fel gyda halen
yr eiliadau pan fyddem fel arall yn
rhydd i esgyn.

gorffennol
gan durio'n ddwfn i'r cof
gan ryddhau'r presennol
i esgor ar yr hyn na fu eto
i dynnu allan
flasau'r dyfodol
fel gyda halen,
i flasau a gweld daioni. . .

dyma sut beth
yw cofio.

Ond y mae ailddychmygu'r

Cwestiynau

- Beth ydych chi'n ei werthfawrogi am eich gorffennol a beth sy'n eich rhwystro rhag bod y person y mae Duw yn dymuno ichi fod?
- Beth allech chi ei ddysgu trwy ddarllen gyda'ch gilydd am hanes ein rhaniadau a'n drwgdybiaeth ohonom ein gilydd?
- Beth sy'n gorfod newid yn yr eglwys er mwyn goresgyn rhaniadau ac er mwyn nerthu ein hundod?

Gweddï

Dduw y rhyddhau,
edrychw'n yn ôl yn hiraethus,
ond yn aml rydym yn aros yn
ein hunfan
ac yn methu symud.
Rhyddha ni er mwyn i ni rodio

gyda thi i'r dyfodol
fel y gallwn, o fod wedi dysgu
trwy'r gorffennol a'i drysori,
afael yn yr aradr a theithio
gyda thi
i'r gweddnewidiad o'n bywyd sy'n
digwydd ynot ti.
Amen.

Mynd a gwneud (www.ctbi.org.uk/goanddo)

- Edrychwch drwy hen albwm lluniau a myfyriwch ar y lleoedd a'r bobl sydd wedi dylanwadu arnoch a'ch dysgu.
- Trefnwch gyda'ch cynulleidfaoedd lleol i fynd ar bererindod o amgylch eich eglwysi neu ewch i ymweld ag ardal treftadaeth neu fan o ddiddordeb hanesyddol. Sylwch ar y storïau sydd ynghlwm wrth eich hanes cyffredin.
- Cofiwch am Rwanda ac ymatebwch i'r sefyllfa gyfoes ym Murundi.

DAY 4

Everything old has passed away



Brandenburg Gate during the fall of the Berlin Wall

Starting Point

During this year, the work of Martin Luther and other reformers is being commemorated by many Christians. The Reformation changed much in the life of the Western Church. Christians of all traditions showed heroic witness and were renewed in their Christian lives. Scripture tells us we can be frozen to the spot when we look back. It is important not to be limited by what happened in the past. The Holy Spirit can open us to a new future in which division is overcome and God's people made whole.

Reflection

IV. Remember

To linger over-long
in the haze of time,
so stifling the past
in nostalgia
or blame-fumed fury
en-shrouds, tomb-like,
as with salt,
moments otherwise free to soar.

But to re-imagine the past,

leaning deep into memory,
so freeing the now
to birth the not yet
to draw out
flavours of the future
as with salt,
to taste and see goodness...

this is how it is
to remember.

Questions

- What do you value in your own past and what holds you back from becoming the person God would have you be?
- What could we learn by reading together the history of our divisions and mutual mistrust?
- What must change in my church so that divisions can be overcome and that which unites can be strengthened?

Prayer

Liberating God,
we look back in nostalgia,
but often frozen to the spot
unable to move.
Free us to travel with you into
the future

that, learning from and treasuring
the past,
we may journey with you, hand to
the plough,
into the transformation of life
in you.
Amen.

Genesis 19:15-26

Don't look back.

Psalms 77: 5-15

God is always faithful.

Philippians 3: 7-14

Forgetting what lies behind.

Luke 9:57-62

Keep your hand on the plough.

Go and Do (see www.ctbi.org.uk/goanddo)

- Look through an old photo album and reflect on those places and people who have shaped and taught you.
- Plan with your local congregations to go on a pilgrimage walk around your churches or visit a local heritage site or place of historical interest. Notice the stories of your shared history.
- Remember Rwanda and respond to the current events in Burundi.



Porth Brandenburg heddiw

Man cychwyn

Wrth ddathlu pumcanmlwyddiant y Diwygiad yn yr Almaen, cawn ein hatgoffa o orchestion a thrasiedïau ein hanes. Mae cariad Crist yn ein gorfodi i fyw mewn ffordd newydd gan weithio i ganfod undod a chymod. Mae Duw yn byw ynom ni trwy nerth yr Ysbryd Glân ac mae'n gadael i ni rannu ym mywyd y Drindod. Daw'r bywyd newydd hwn yn amlwg pan fyddwn yn barod iddo ymffurfio, a'i fyw drwy 'dynerwch calon, caredigrwydd, gostyngeddwrwydd, addfwynder ac amynedd.'

Eseciel 36:25-27

Derbyn calon newydd oddi wrth Dduw

Salm 126

Cael ein llenwi â llawenydd

Colosiaid 3:9-17

Cael ein hadnewyddi yng Nghrist

Ioan 3:1-8

Cael ein geni yn yr Ysbryd

Myfyrdod

V. Adnewyddu

A ninnau bob un ohonom
wedi ein creu yn hardd ac
yn fendigedig
ar ddelw a llun yr Un a'n creodd,
Duw yw ein noddfa, ac eto
mae'n dal
i lochesu ynom.

A ninnau wedi cael gras
gostyngeddwrwydd i adfer y
caredigrwydd coll yn ein
llygaid ein hunain
a allwn ni ein gweld ein hunain ac
eraill fel y mae Duw yn ein
gweld ni?

Mewn cydgefnogeth cerddwn
gyda'r rhai ar y ffordd y mae
eu baich yn drwm
a'u colled yn fawr.

A allwn ni fendithio ein delwedd
ohonom ein hunain
sydd mor aml yn llai nag
eiddo Duw
fel y gall pob un ohonom weld y
dyfodol
a'r mesur hwnnw y'n
gelwir iddo?

Gwna inni ddal i sylwi ar y
newyddion da
a'r achlysuron bychain,
ac ar ras yr hyn sy'n bosibl
fel na foed inni anwybyddu dawn
ein cymydog
nac angen ein gelyn.

Cwestiynau

- 'Rwy'n greadigaeth newydd' medd Paul. Felly beth sydd wedi newid eich bywyd chi?
- Yn niwygiad parhaol eich bywyd chi, beth arall sydd angen ei newid?
- Beth welwch chi Dduw yn ei wneud yn niwygiad parhaol yr eglwys?

Gweddi

Duw sanctaidd, crëwr y nefoedd
a'r ddaear,
rydym yn greadigaeth newydd
ynot ti.
Rhoi i ni galonnau newydd er

mwyn goresgyn
popeth sy'n peryglu ein hundod.
Trwy Iesu Grist ac yn nerth yr
Ysbryd Glân.
Yn awr ac am byth. Amen.

Mynd a gwneud (www.ctbi.org.uk/goanddo)

- Treuliwch amser yn myfyrio ar y greadigaeth heddiw, er enghraifft drwy wyllo rhaglen ddogfen am natur, drwy ymweld â pharc lleol neu fynd am dro mewn coedwig.
- Diolchwch am y cynnydd a wnaed i sefydlu cytundeb Newid Hinsawdd Byd-eang a pharhewch i ymgyrchu dros gyfiawnder mewn perthynas â newid hinsawdd. A yw eich eglwys yn eco-eglwys neu'n eco-gynulleidfa?
- Cysylltwch â'r rhai sy'n newydd-ddyfodiaid i'ch cymuned trwy eu gwahodd i fod yn rhan o'ch prosiectau amgylcheddol lleol, er enghraifft, gerddi cymunedol, rhandiroedd, ailgylchu, neu blannu coed.



Brandenburg Gate today

Starting Point

In this 500th anniversary of the Reformation in Germany we are reminded of both the achievements and tragedies of our history. The love of Christ compels us to live in a new way, actively seeking unity and reconciliation. God lives in us by the power of the Holy Spirit and lets us share in the life of the Trinity. This new life becomes visible when we allow it to take shape and live it out in 'compassion, kindness, humility, gentleness and patience.'

Reflection

V. Re-new

Created, each one of us, beautiful and blessed,
in the image and likeness of the One who created us.
God is our refuge, and still takes sanctuary in us.

Graced by humility to retrieve the lost kindness in our own eyes
can we see ourselves and others as God sees us.

In solidarity we walk with those on the road, whose burden is heavy
and whose loss is great.

Can we bless the imagining of ourselves which is so often smaller than God's
so that each of us might see that future
and that stature that we are called to become.

Make us attentive still to good news and small occasions.
To the grace of what is possible.
That we may neither miss our neighbour's gift
nor our enemy's need.

Questions

- 'I am a new creation' writes Paul. So what has changed in your life?
- In the ongoing reformation of your life, what else needs to change?
- What do you notice God is doing in the ongoing reformation of the Church?

Prayer

Holy God, maker of heaven and earth,
in you we are a new creation.
Give us new hearts to overcome

all that endangers our unity.
Through Jesus Christ and by the power of the Holy Spirit.
Now and forever. Amen.

Ezekiel 36:25-27

Receiving a new heart from God.

Psalms 126

Being filled with joy.

Colossians 3:9-17

Being renewed in Christ.

John 3:1-8

Being born in the Spirit.

Go and Do (see www.ctbi.org.uk/goanddo)

- Spend time connecting with creation today, for example, by watching a nature documentary, visiting a local park or going for a walk in a woodland.
- Give thanks for the progress made towards a Global Climate Change deal and continue to campaign for climate justice. Is your church an eco-church or eco-congregation?
- Connect with those new to your community by inviting their involvement in any local environmental projects, for example community gardens, allotments, recycling, tree planting.

Capel Cymod, Berlin



Man cychwyn

Ar ôl yr Holocaust, tasg penodol yr eglwysi yn yr Almaen yw milwrio yn erbyn gwrth-Semitiaeth. Yn yr un modd, gelwir pob eglwys at waith cymod yn eu cymunedau. Golyga hyn fod angen gwrthsefyll pob math o anffafiaeth, oherwydd yr ydym oll yn rhan o gyfamod Duw. Mae dwy wedd ar gymodi gan ei fod yn ddiddorol ond hefyd ar yr un pryd yn frawychus. Mae'n ein denu gymaint nes ein bod yn ei ddymuno o'n mewn ein hunain; rhyngom ein gilydd; a rhwng ein traddodiadau cyffesol gwahanol. Gwelwn y pris ac fe gawn ein brawychu. Mae cymodi'n golygu bod yn barod i ymwrthod â'n awydd i gael grym a chydabyddiaeth.

Genesis 17:1-8

Mae Duw yn gwneud cyfamod ag Abraham

Salm 98

Fe welodd y byd fuddugoliaeth Duw

Rufeiniaid 5:6-11

Fe gymododd Duw ni ag ef ei hunan drwy Iesu Grist

Luc 2:8-14

Cyhoeddi'r newyddion da

Myfyrdod

VI. Cyfamod

Dyma'r hyn na wn:
A oes angen imi newid, edifarhau
– diwygio
cyn estyn am gymod;
Neu, yn hytrach,
a yw cymodi
â'm brodyr a'm chwiorydd
yn amod hanfodol
cael fy niwygio.

Dyma'r hyn a wn:
Mai'n anaml y mae amser dynol

yn teithio'n unionsyth,
mae fynychaf yn troelli;
bod gronynnau annifyr gwahaniad
yn treiddio i geudodau
rhagfuriau ymraniad,
gan dyfu haenau o ddoethineb:
perlau cyfamod.

A hyn yn fwy a wn:
Fod y cyfamod
Sy'n ein huno â Duw
Yn un o ddoniau Duw'n ei bryd.

Cwestiynau

- Ymhle y bu ichi brofi poen anffafiaeth neu ragfarn? Myfyriwch ar eich profiad.
- Ymhle y bu ichi weld anffafiaeth, cydymddwyn ag ef, neu ei brofi o fewn yr eglwys?
- Sut all Duw eich defnyddio fel cymodwr mewn sefyllfa o'r fath?

Gweddi

Duw yr addewid,
gelwaist ni i fod mewn cyfamod
â thi
sy'n ein clymu ynghyd yn dy
gariad hollgynhwysol;
eto fe godwn furiau sy'n tarfu ar

hyn a'i aflonyddu.
Arwain ni at ddealltwriaeth
newydd o'th addewid i ni,
nad yw byth yn cael ei diddymu,
ond sy'n ein cymodi ni â thi,
trwy Grist.
Amen.

Mynd a gwneud (www.ctbi.org.uk/goanddo)

- Darllenwch am y gwaith cymodi sy'n digwydd yn Israel a'r Tiriogaethau Palesteinaidd Goresgynedig.
- Ystyriwch y gwahanol ffyrdd y gellir gwahaniaethu yn erbyn pobl.
- Gweithredwch er mwyn herio unrhyw gamdybiaethau sydd wedi datblygu ynghylch y rhai sy'n ceisio lloches.

DAY 6

God reconciled us to himself

Chapel of Reconciliation, Berlin



Starting Point

After the Holocaust the distinctive task of the German churches is to combat anti-Semitism. Similarly all churches are called to reconciliation in their communities. This means resisting all forms of human discrimination, for we are all held in God's covenant. Reconciliation has two sides being both fascinating and terrifying at the same time. It draws us in so that we desire it: within ourselves; with one another; and between our different confessional traditions. We see the price and it scares us. For reconciliation means renouncing our desire for power and recognition.

Reflection

VI. Covenant

This I do not know:
Whether I must change,
repent – reform
before reaching for reconciliation;
Or if, rather,
being reconciled with my
brothers and sisters
is a necessary condition
for reformation.

rather, spirals;
that the troublesome
grit-of-separation
seeps into the cavities
of the walls of division,
growing layers of wisdom:
pearls of reconciliation.

And this more I know:
That the covenant
binding us with God
is a gift of God's time.

This I know:
That human time,
rarely straight-lining,

Questions

- Where have you encountered the hurt of discrimination or prejudice? Reflect on this experience.
- Where have you witnessed, colluded in, or experienced discrimination within the church?
- How can God use you as a reconciler in such a situation?

Prayer

God of promise,
you call us into a covenant
that binds us into your
inclusive love;
yet we build walls that disturb
and disrupt this.

Lead us to a renewed
understanding of your
promise to us,
that is never cancelled,
but which reconciles us to you,
through Christ.
Amen.

Genesis 17:1-8

God makes a covenant with Abraham.

Psalm 98

The world has seen the victory of God.

Romans 5:6-11

God reconciled us to himself through Jesus Christ.

Luke 2:8-14

Proclamation of the good news.

Go and Do (see www.ctbi.org.uk/goanddo)

- Read about the work of reconciliation in Israel and the Occupied Palestinian Territories.
- Explore the different ways people can be discriminated against.
- Take action to challenge any myths that have grown up concerning those who seek asylum.

Celf Mur Berlin



Man cychwyn

Ceisiodd y diwygwyr fel Martin Luther ac eraill a arhosodd mewn cymundeb â Rhufain, megis Ignatius o Loyola, ddod ag adfywiad i'r Eglwys Orllewinol. Roedd yr hyn a ddylai fod yn stori am ras Duw, fodd bynnag, hefyd wedi ei ddifwyno gan bechod y ddynoliaeth. Mae cymod rhwng Duw a'r ddynoliaeth weth wraidd ein ffydd Gristnogol. Roedd Paul yn argyhoeddedig fod cariad Crist yn ein gorfodi ni i ddod â chymod Duw at bob elfen o'n bywydau. Heddiw mae hyn yn ein cyflyru i archwilio ein cydwybod mewn perthynas â'n rhaniadau. Fel y dengys stori Joseff, fe rydd Duw y gras sydd ei angen bob amser er mwyn adfer perthynas sydd wedi ei thorri.

Genesis 50:15-21

Cymodi Joseff â'i frodyr

Salm 72

Daw teyrnas Dduw â chyfiawnder a heddwch

1 Ioan 3:16b-21

Mae cariad Duw yn ein gorfodi i garu ein gilydd

Ioan 17:20-26

Gweddia'r Iesu dros undod yr eglwys

Myfyrdod

VII. Adffurfio

Rwyt Ti'n ffurfio –
 Pob copa walltrog ohonom;
 mae rhai yn fwy hydrin
 na'i gilydd,
 a mwy eto ohonom
 bron â thorri,
 yn fregus,
 neu wedi cracio.
 Ond y mae diffyg ymhob
 un ohonom;
 Efallai mai dyna sut y gwelwn
 y goleuni,
 Y wreichionen o'r dwyfol sydd
 ymhob un ohonom?

Wrth inni i gyd gofleidio
 yr hyn ynom sydd wedi torri,
 Canfyddwn mai yn ein doluriau
 Y cawn hyd i'n gilydd.
 Nid mai fy mhoen i yw dy
 boen di,

Na dy boen di yw f'un i:

Ond nad aiff neb ohonom,
 dim un hyd yn oed,
 drwy fywyd heb gael ei greithio.

Pe baem, bob un ohonom, yn dod
 â'n darnau toredig
 a fesul dernyn
 yn eu gosod i lawr
 ochr yn ochr;
 gwelem dy grefftwaith
 yn adffurfio'r hyn a dorrwyd
 yn ei weddnewid
 i'r hyn a iachawyd

i'r hyn a gerir

ac un diwrnod

i'r hyn a gyfanwyd

Cwestiynau

- Ble ydych wedi gweld cymdeithas yr ydych chi'n perthyn iddi'n mynd ar chwal?
- Beth oedd y muriau a oedd yn rhwystro cymod?
- Sut y gellir chwalu'r muriau yna?

Gweddi

Dduw Cymod,
 Trwy Grist rwyt ti'n ein galw at
 undod na allwn ei ddewis.
 Eto fe awn yn ôl yn gyndyn at ein
 hen arferion:
 gwrthdaro, rhannu a

pherthnasau toredig.
 Tyrd wyneb yn wyneb â ni ac
 argyhoedda ni o'n methiant;
 Chwala furiau ein hesgusodion,
 A rhyddha ni i gyfrannu at
 weinidogaeth dy gymod..
 Gweddiwn hyn yn enw Iesu.
 Amen.

Mynd a gwneud (www.ctbi.org.uk/goanddo)

- Gofynnwch i rywun am rywbeth y mae arnoch ei angen heddiw.
- Gwyliwch y *Rusty Radiator Awards* a cheisiwch herio'r ystrydebau ynghylch pwy yn union yw'r anghenus.
- Rhowch gyfle i'r newydd-ddyfodiaid yn eich cymuned i gyfrannu - er enghraifft, gofynnwch iddynt helpu i goginio pryd bwyd cymunedol.

Berlin Wall art



Starting Point

The reformers such as Martin Luther and others who remained in communion with Rome, such as Ignatius of Loyola, sought to bring about renewal in the Western church. However, what should have been a story of God's grace was also marred by human sinfulness. Reconciliation between God and humanity is key to our Christian faith. Paul was convinced that the love of Christ compels us to bring God's reconciliation to bear in all aspects of our life. Today this leads us to examine our consciences in relation to our divisions. As the story of Joseph demonstrates, God always gives the grace needed for the healing of broken relationships.

Genesis 50:15-21

Joseph is reconciled with his brothers.

Psalm 72

God's kingdom brings righteousness and peace.

1 John 3:16b-21

God's love compels us to love one another.

John 17:20-26

Jesus prays for the unity of his church.

Reflection

VII. Reformed

You shape us –
each and every one;
some are more malleable
than others,
and yet more
near broken,
fragile,
cracked.
But a fault line runs through
us all;
Perhaps that's how we see
the light,
the spark of the divine in each
of us?

As we each embrace
that which is broken in us,
we find that in our wounds –
that is where we discover
each other.
Not that my pain is yours,

or yours mine;
but that none of us,
not a single one,
go through life without
being scarred.

If we were each to bring our
broken pieces
and bit by bit,
lay them down
side by side;
we would see Your craftsmanship,
reforming that which is broken,
into that which is
healed

loved
and one day
whole.

Questions

- Where have you experienced the fracture of a community you have belonged to?
- What were the barriers that hindered reconciliation?
- How can those barriers be broken down?

Prayer

God of reconciliation,
Through Christ you call us to a
unity that is not an option.
Yet we fall back tenaciously on
our old ways:
conflict, division and
fractured relationships.

Confront and convict us of
this failure;
Break through the walls of
our excuses,
And set us free to participate in
your ministry of reconciliation.
This we pray in Jesus' name.
Amen.

Go and Do (see www.ctbi.org.uk/goanddo)

- Ask someone for something you need today.
- View the *Rusty Radiator Awards* and seek to challenge stereotypes about who the needy are.
- Give those who are new to your community an opportunity to contribute - for example ask them to share in the cooking of a community meal.



Cadeirlan Berlin yn ystod Gŵyl y Goleuni

Myfyrdod

VIII. Gweld

Os gweld yw credu
a allwn edrych
heb droi ein hwynebau i ffwrdd
oddi wrth y galaru
yr wylofain
y boen
gan syllu i'r bedd
ac edrych ym myw llygaid yr hyn
sy'n ein dychryn

Os gweld yw credu
a allwn edrych
gan droi ein hwynebau
tuag at atgyfodiad
cymod
a diwygiad
at y dydd pan
sychir ymaith bob deigrin

Pob deigrin

dagrau'r rhai sy'n byw mewn braw
dagrau'r rhai sy'n ymladd
yn ddiellon
dagrau'r rhai sy'n galaru
oherwydd colled
dagrau'r rhai sy'n dioddef
oherwydd eu tosturi
dagrau Duw oherwydd poen
y byd

Os gweld yw credu
a allwn edrych
os trwy lygaid dagreuol
y gwelwn
fod pob peth
yn cael
ei wneud o'r newydd.

Cwestiynau

- Sut le yr ydych chi'n ei ddychmygu fydd Teyrnas Duw?
- Pa ganeuon, storïau, cerddi, litwrgïau a lluniau o'ch traddodiad chi sy'n gwneud ichi deimlo eich bod yn cyfranogi yn realiti tragwyddoldeb Duw?

Gweddï

Crist Iesu,
daeth dy gorff dolurus
a chlwyfedig
o hyd i'w heddwch mewn angau.
Eto fe gyfodaist ar ddydd y Pasg.
Rho ddewrder i ni ddirnad

dy gariad achubol
a thrawsnewidiol
yn y clwyfau ac yn yr iachad.
Fel y gallwn ganfod dyfnder
llawenydd newydd
yn y newyddion da o'th
fywyd atgyfodedig!
Amen.

Man cychwyn

Beth petai? Beth petai'r
profwydoliaethau yn y Beibl yn dod yn
wir? Beth petai cyfiawnder a heddwch
Duw yn ben, heddwch sy'n llawer mwy
nag absenoldeb rhyfel? Beth petai yna
ddiwedd go iawn ar alaru, ar dagrau,
ac ar farwolaeth? Dyma fyddai
penllanw cymod Duw trwy Grist Iesu.
Hon fyddai Teyrnas Duw.

Micha 4:1-5

Yn y dyddiau diwethaf teyrnasa
cyfiawnder

Salm 87

Dywedir pethau gogoneddus am Dduw

Datguddiad 21:1-5a

Bydd Duw yn llunio nef newydd a
daear newydd

Ioan 20:11-18

Cyfarfod y Crist atgyfodedig yn arwain
at genhadaeth bersonol

Mynd a gwneud (www.ctbi.org.uk/goanddo)

- Gwyliwch y ffilm fer *Tree of Life* - enghraifft o'r hyn a olygir gan ddistryw yn esgor ar gymod.
- Chwiliwch am straeon, caneuon, cerddi neu luniau oddi wrth y rhai sy'n ceisio lloches yn eich cymuned neu wlad ac sy'n disgrifio eu gobaith am y dyfodol.
- Diolchwch am waith Cynghair yr ACT, 140 o eglwysi a Chyfundrefnau ffydd yn cydweithio mewn dros gan o wledydd i greu newid positif a chynladwy ym mywydau pobl sy'n dlawd ac yn byw ar y cyrion.



Berlin Cathedral during Festival of Light

Starting Point

What if? What if the prophecies in the Bible actually came true? What if God's justice and peace reigned, a peace which was more than simply the absence of war? What if there really was no more mourning, no more tears, and no more death? It would be the culmination of the reconciliation that God brought about in Jesus Christ. It would be the Kingdom of God.

Micah 4:1-5

In the last days justice will reign.

Psalm 87

Glorious things are spoken of God.

Revelation 21:1-5a

God will make a new heaven and a new earth.

John 20:11-18

Meeting the risen Christ leads to personal mission.

Reflection

VIII. Be-holding

If seeing is believing
can we look
not turning our face away
from the mourning
the crying
the pain
staring into the grave
meeting the gaze of what we fear

If seeing is believing
can we look
turning our face towards
resurrection
reconciliation
and reformation
to the day when
every tear will be wiped away

Every tear

the tears of those living in terror
the tears of those fighting
in anger
the tears of those grieving
from loss
the tears of those aching
with compassion
the tears of God for the pain of
the world

If seeing is believing
can we look
if through blurred eyes
beholding
all things
are being
made new.

Questions

- How do you envision the Kingdom of God?
- Which songs, stories, poems, liturgies and pictures from your traditions give you the feeling of participating in the reality of God's eternity?

Prayer

Jesus Christ,
your torn and abused body,
found its peace in death.
Yet you are risen on Easter Day.
Give us the courage to
comprehend
your saving and transforming love

in the wounds as well as
the healing.
So that we can find new and
deeper joy
in the good news of your
risen life!
Amen.

Go and Do (see www.ctbi.org.uk/goanddo)

- Watch the short film *Tree of Life* - an example of what was meant for destruction bringing restoration.
- Seek out stories, songs, poems or pictures from those seeking refuge in your community or country that describe their hopes for the future.
- Give thanks for the work of the ACT Alliance, 140 churches and faith-based organisations working together in over 100 countries to create positive and sustainable change in the lives of poor and marginalised people.

Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2017



Un o geidwaid ffin ddwyreiniol yr Almaen yn gwrthgilio / An East German border guard defects

Cyflwyniad

Stephen Brown a Gwynn ap Gwilym

Cyflwynir deunydd yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol eleni er cof am y Parchedig Stephen Brown a fu farw ym mis Chwefror 2016 a'r Parchedig Ganon Gwynn ap Gwilym a fu farw ym mis Gorffennaf 2016.

Roedd Stephen a Gwynn yn aelodau ymroddgar o Grŵp Awduron yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol am nifer o flynyddoedd, gan gyfrannu'n fawr oherwydd eu creadigrwydd a'u cydweithrediad. Byddwn yn gweld eu colled ond byth yn eu hanghofio.

Dedication

Stephen Brown and Gwynn ap Gwilym

This year's Week of Prayer for Christian Unity material is dedicated to the memories of the Revd Stephen Brown who passed away in February 2016 and the Revd Canon Gwynn ap Gwilym in July 2016.

Both Stephen and Gwynn had served as dedicated members of the CTBI Writers Group for the Week of Prayer for Christian Unity for many years, making enormous contributions through their creativity and collegiality which will be greatly missed but never forgotten.

Gweddi

Dduw y Drindod,
Diolchwn i ti am yr wythnos weddi hon
sydd wedi dod â ni at ein gilydd fel Cristnogion
ac sydd wedi ein galluogi i brofi
dy bresenoldeb mewn ffyrdd gwahanol.
Rho ffyrdd i ni glodfori dy enw sanctaidd gyda'n gilydd
Fel y gallwn barhau i chwilio am gymod a thyfu tuag
at undod.

Prayer

Triune God,
We thank you for this week of Prayer
that has brought us together as Christians
and that has enabled us to experience
your presence in different ways.
Grant us ways to praise your holy name together
So that we continue to seek reconciliation
and grow towards unity.

ISBN: 978-0-85169-399-6



www.ctbi.org.uk/weekofprayer

Twitter: #wpcu2017

www.weekofprayer.org

Twitter: #wpcuwall

Cyhoeddwyd gan

Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon
39 Eccleston Square,
Llundain SW1V 1BX
info@ctbi.org.uk, ffôn: 020 7901 4890
Elusen gofrestrdig rhif 1113299
Cwmni cyfyngedig trwy warant,
rhif cofrestru 5661787